

Polisi Preifatrwydd Gwastraff Swmpus – Cyngor Bro Morgannwg

Bod yn dryloyw a chynnig gwybodaeth hawdd ei gyrchu i unigolion yw sylfaen Deddf Diogelu Data 2018 [DDD] a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol [EU 2016/679]{RhDDC}

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth parthed y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud beth i'w ddisgwyl pan fydd Cyngor Bro Morgannwg [BM] yn casglu gwybodaeth bersonol yn ymwneud â'ch defnydd ar Wasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus BM.

Pwrpas prosesu eich gwybodaeth bersonol

Fel awdurdod lleol, mae'r cyngor yn cyflenwi gwasanaethau i chi. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol bydd gofyn i ni gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi.

Fel y gall y cyngor weinyddu eich cais y mae'n angen rheidiol i ni gasglu gwybodaeth bersonol amdanoch er mwyn:-

- Cwblhau eich casgliad gwastraff swmpus
- Cysylltu â chi os oes problem neu os oes angen mwy o wybodaeth arnom ynghylch eich casgliad

Y math o wybodaeth bersonol a gasglwn yw:-

- Enw a manylion cyswllt (rhif ffôn, cyfeiriad e-bost)
- Cyfeiriad eitemau i'w casglu
- Efallai y tynnir ffotograff o wedd flaen yr eiddo perthnasol os fydd casgliad wedi methu. Caiff ffotograffau eu tynnu o'r eiddo yn unig i sicrhau nad oes modd adnabod unrhyw un yn y llun.

Bydd DDD 2018 a'r RhDDC yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data. Mae'r egwyddorion rhain i'ch amddiffyn chi ac maent yn sicrhau ein bod yn:

- Prosesu pob gwybodaeth bersonol yn gyfreithiol, yn deg ac mewn modd tryloyw.
- Casglu gwybodaeth bersonol i ddibenion penodol, clir a chyfreithlon.
- Sicrhau fod y wybodaeth bersonol a broseswn yn ddigonol, perthnasol ac wedi ei gyfyngu i'r dibenion y'i casglwyd ar ei gyfer.
- Sicrhau fod gwybodaeth bersonol yn gywir ac yn wybodaeth ddiweddaraf
- Cadw eich gwybodaeth bersonol am ddim mwy o amser na sydd raid ar gyfer y diben[ion] y'i casglwyd.
- Cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel gan ddefnyddio mesurau technegol neu drefniadol priodol.

Â phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth

Er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn rhoi gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i chi byddwn o bryd i'w gilydd yn rhannu eich gwybodaeth rhwng timoedd o fewn y Cyngor yn ogystal a sefydliadau partner sy'n cefnogi cyflenwi'r gwasanaeth a dderbyniwch. Yn yr achos hwn caiff eich gwybodaeth bersonol ei rhannu gyda staff casglu gwastraff swmpus y Cyngor a staff CUF sef canolfan gyswllt y Cyngor.

Byddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth mewn moddau a ganiateir gan Ddeddf Diogelu Data 2018.

Gall y Cyngor hefyd ddefnyddio eich gwybodaeth i ddibenion cyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau gorfodi statudol. Bydd y gwneud unrhyw ddatgeliadau sydd eu hangen yn unol â'r gyfraith ac o bosib rannu eich gwybodaeth a chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ddarganfod/atal troseddau.

Am faint y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth gyhyd ag y bydd ei hangen arnom neu gyrrff rheoliadol eraill er mwyn gallu cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoliadol neu am resymau gweithredol eraill. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd hyn am ddim mwy na 6 blynedd.

Eich hawliau fel Gwrthrych Data

Mae gennych hawliau penodol o dan DDD2018 a'r RhDDC

Mae gennych hawl i:

- Gael eich hysbysu drwy gyfrwng Hysbysiad Preifatrwydd fel hwn
- I gyrchu unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch sydd gennym:
- yr hawl i gywiro, mae'n rhaid i ni gywiro data gwallus neu anghyflawn o fewn un mis
- I ddileu, mae hawl gennych i gael eich data personol wedi ei ddileu ac i atal prosesu oni bai fod dyletswydd gyfreithiol arnom i brosesu eich data personol.
- I gyfyngu, mae hawl gennych i atal prosesu. Gallwn gadw dim ond digon o wybodaeth amdanoch i sicrhau y caiff y cyfyngiad ei barchu yn y dyfodol.
- symudedd data. Gallwn ddarparu eich data personol i chi ar ffurf drefnus, gyffredin y gall peiriant ei ddarllen pan ofynnir amdano.
- i wrthwynebu. Gallwch wrthwynebu bod eich data personol yn cael ei ddefnyddio i broffilio, marchnata yn uniongyrchol neu ddibenion ymchwil.
- I gwyno os gwrthodwn gais a wneir gennych efallai gan ddefnyddio'r hawliau hyn ac nad ydych yn hapus â'n rheswm.
- mae hawliau gennych parthed penderfynu a phroffilio wedi ei awtomeiddio, i leihau'r risg o benderfyniad niweidiol posib heb ymyrraeth gan berson dynol.

Afallai y byddwn yn cyfeirio unrhyw gais a wnewch gan ddefnyddio'r hawliau hyn i sefydliad arall, os buont yn ymwneud a phrosesu eich data personol.

Manylion Cyswllt

Os carech drafod eich hawliau ynghylch y wybodaeth a ddelir gan y Cyngor yna cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data dpo@valeofglamorgan.gov.uk neu ar 01446 700111.

Os oes unrhyw bryderon gennych ynghylch y defnydd ar eich data personol cysylltwch â Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth drwy eu gwefan neu'r llinell gymorth ar 0303 123 1113. Corff annibynnol yw Swyddog y Comisiynydd Gwybodaeth a sefydlwyd er mwyn cynnal hawliau gwybodaeth yn y DU.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow

Cheshire
SK9 5AF

Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn

Byddwn yn adolygu'n hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd. Diweddarwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ddiwethaf yn

Rhagfyr 2018